

Wrth iddynt 'ddod yn fwy medrus

# O Smotyn i Smotyn

## Beth am 'Chwarae i Ddysgu'?

Anogwch y plant i archwilio'r canlynol:

- Creu eu llwybr cerrig camu eu hunain er mwyn croesi pellter penodol, gan ddefnyddio cyn lleied o gerrig camu ag y gallant. Cerdded ar hyd y llwybr, neidio neu symud fel llwynogod
- Creu llwybr cerrig camu ar gyfer plentyn arall neu grŵp, y mae modd ei gublhau ond sy'n heriol
- Creu llwybr cerrig camu i fyny ffrâm ddringo/ardal ar lethr/wal/cwrs rhwystrau/wal ddringo/craig/twmpath naturiol. Dylid cyfeirio at y Cerdyn Sgiliau Technegol ar gyfer Dringo
- Creu llwybr cerrig camu dros gyfres o rwystrau, i'w gublhau mewn cyn lleied o amser ag sy'n bosibl



## Adnoddau

- Marcwyr dros dro/marciau sialc
- Tâp/labeli gludiog
- Rhubanau, sgarffiau
- Fframiau dringo, ardaloedd ar lethr, waliau, rhwystrau/cyfarpar mawr/waliau dringo, creigiau neu dwp pathau naturiol

## Cwestiynau

- Pa ran o'r llwybr oedd anoddaf, a pham?
- Sut penderfynoch chi ble i roi'r cerrig camu pan oeddech chi'n cynllunio llwybr ar gyfer grŵp arall?
- Pam y mae'n buwysig cynllunio yn y gweithgaredd hwn?
- Sut gallwch chi sicrhau na fyddwch chi'n mynd yn sounnd yn rhywle?
- Beth mae'n rhaid i'r person sydd yn y blaen ei ddweud neu'i wneud i helpu'r rhai eraill sy'n ei ddilyn?

## Geiriau allweddol

- Rheolaeth, sgiliau cydsymud, cydbwysedd
- Estyn, ymestyn, gafael, lleoedd i'r dwylo afael, lleoedd i'r traed afael, ymwybyddiaeth ofodol
- Tynnu â'r dwylo, guthio â'r traed
- Cyfathrebu

## Cyfleoedd i:

- dyfu'n gryfach ac yn fwy ystwyth
- symud â rheolaeth gorfforol a hyder cynyddol
- gweithio'n ddiogel gydag eraill
- cydweithio i ddatrys problemau wrth weithio gydag eraill

## Diogelwch a threfn

Sicrhewch:

- bod amrywiaeth o rwystrau ar gael a fydd yn darparu ar gyfer pob gallu
- bod y plant yn gweithio mewn 'gerddi'
- bod pawb yn dilyn y protocolau a argymhellir wrth weithio oddi ar y safle neu â waliau dringo

# A allwch chi weld y plentyn?

- Yn tyfu'n gryfach ac yn fwy ystwyth?
- Yn symud â rheolaeth gorfforol a hyder cynyddol?
  - Yn gweithio'n ddiogel gydag eraill?
- Yn cydweithio i ddatrys problemau wrth weithio gydag eraill?

gan amlaf

weithiau

## Anogwch y plentyn i:

- drafod beth mae am ei wneud a pha smotyn y mae am symud iddo nesaf; dilyn plentyn orall mwy medrus neu ymarferwr sy'n gwneud y gweithgareddau hyn
- dewis ble'r hoffai osod y marcwyr
- cynllunio ei lwybr yn gyntaf, ac yna gweithio gyda phlentyn mwy medrus neu ymarferwr sy'n rhoi cyfarwyddiadau, ac ati

## Anogwch y plentyn i:

- gynyddu'r pellter rhwng y marcwyr yn raddol
- gweithio fel fîm gyda phlant eraill mwy medrus i gwblhau'r llwybr gan gadw mewn cysylltiad â'i gilydd
- gweithio gyda phartner i ddatrys problemau mwy cymhleth, e.e. senario – achub eryr sydd wedi'i anafu
- rhoi cynnig ar ddilyn/dringo llwybrau mwy fertigol

## Cyfleoedd campus

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol: Datblygiad personol – cymryd risgiau a dod yn chwilotwyr hyderus
- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol: Lles – datblygu dealltwriaeth am beryglon mewn amgylchedd yn yr awyr agored